**CYNGOR SIR Y FFLINT**

**B5127 LÔN Y FELIN, ELFED DRIVE, POTTERS WAY, BEECHTREE ROAD, TABERNACLE STREET, ORCHARD CLOSE, PADESWOOD ROAD NORTH, MOLD ROAD, BRUNSWICK ROAD A HAWKESBURY ROAD BWCLE**

**GWAHARDDIAD ARFAETHEDIG I AROS AR UNRHYW ADEG**

Datganiad o Resymau Dros Argymell Gwneud y Gorchymyn

Gwnaed cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru ac o’r herwydd mae Cyngor Sir y Fflint wedi llwyddo i gael cyllid i weithredu llwybr diogel i’r ysgol a llwybr teithio llesol drwy Fwcle yn cysylltu i bob ysgol.

Bydd Cyflwyno’r cyfyngiadau Dim Aros ar Unrhyw Adeg yn gwella diogelwch cerddwyr a holl ddefnyddwyr y ffordd drwy gael gwared ar gerbydau wedi’u parcio mewn lleoliadau allweddol a gwella llif y traffig o gwmpas Bwcle. Bydd hefyd yn sicrhau bod mynediad ar gael i drigolion lleol, yn atal rhwystrau ac yn cynnal gwelededd wrth y cyffyrdd ac i sicrhau nad yw’r cyffyrdd wedi’u rhwystro gan gerbydau wedi’u parcio.

Mae parcio ar gyffyrdd, p'un a oes llinellau melyn ar y ffordd neu beidio, yn drosedd ac mae’r cyfyngiadau hyn yn rhwystr gweledol i atgyfnerthu'r neges hon. Ar hyn o bryd, pe bai cerbydau’n parcio o fewn 10 medr i gyffordd, gall hynny gael ei ystyried yn drosedd ac felly byddai'n destun camau gorfodi gan Heddlu Gogledd Cymru. At hynny, mae Rheolau’r Ffordd Fawr yn nodi na ddylai cerbydau barcio ger neu ar gyffordd oherwydd gallant achosi rhwystr a pheryglu diogelwch defnyddwyr y ffordd.

Mae'r Cyngor Sir yn parhau â’i gyfrifoldeb i ystyried darpariaeth symudiad cyfleus a diogel cerbydau modur a thraffig arall, ac mae’r mesurau a gynigir yn ceisio sicrhau bod y perygl yn cael ei leihau ar gyfer defnyddwyr ffordd diamddiffyn ynghyd â gwella amwynder yr ardal.

**Manylir ar y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac yn y Gorchymyn arfaethedig**

[redacted]

Katie Wilby
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug, CH7 6NF
Sir y Fflint.
Dydd Gwener 12 Tachwedd 2021